## FFYNNON TÂF A GWAELOD

Gohebydd Lleol:
E June Huws

Adferiad Iechyd
Mae'n bleser cael sôn am adferiad iechyd Mrs Nest Jeremy, Tŷ Newydd, Gwaelod-y-Garth. Bu Mrs Jeremy yn ddrwg iawn ei hiechyd ers cyn y Nadolig. Mae wedi treulio cryn amser yn Ysbyty'r Waun a'r Infirmary yng Nghaerdydd, ac ar y foment mae yn Ysbyty Rookwood. Mae ei theulu a'i ffrindiau i gyd yn edrych ymlaen at ei chael yn ôl adref.

Twmpath Dawns
Cynhelir y twmpath yn Neuadd y Gymuned Ffynnon Taf ar nos Sadwrn 28ain o Chwefror. Mae'n siwr o fod yn llwyddiant ysgubol arall i ffrindiau Ysgol Gwaelod-y-Garth. 'Cadlan' fydd y grŵp.

Symud Tŷ
Ar ôl hir ddisgwyl mae Mr a Mrs J Evans a'u Plant ar fin symud o'u hen dŷ yng Ngwaelod y Garth i'w cartref newydd. Mae John a Hazel yn lwcus fod cyn lleied o ffordd i gario'r celfi - rhyw ganllath yn unig yn groes yr heol. Dymunwn pob lwc iddyn nhw yn eu cartref newydd.

Hoffem hefyd estyn croeso twym galon i deulu Mr a Mrs Gerwyn Williams i'w cartref newydd yn y pentref. Mae Mr Williams yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom yn barod, fel Dirprwy Brifathro yn Ysgol Gynradd y Pentref. Bydd dyfodiad y plant, Aled a Nia yn hwb i nifer y plant Cymraeg yn y pentref.

Noson Jazz Grwp Heddwch Gwaelod-Y-Garth
Cynhaliwyd y noson hon yn neuadd y pentref ar nos Sadwrn y 14eg o Chwefror ac aeth yr elw at C.N.D. Yr oedd yn noson ddifyr iawn a chafwyd cerddoriaeth fywiog gan Heeny Quartet, grŵp o Gaerdydd. Hefyd bu Ben Heneghan yn perfformio'n gywrain ar y piano. Mae Ben a'i wraig Sally a'u mab Michael wedi symud i Ffynnon Tâf ac yn byw yn Stryd Y Garth. Doctor yw Sally ac mae Ben yn adnabyddus ym myd cerddoriaeth, fe oedd yn gyfrifol am y gerddoriaeth achlysurol ar y ffilm Nadolig 'Sion Blewyn Coch'.

Bethlehem Gwaelod-y-Garth
Mae ymarferion erbyn Gymanfa Ganu dydd Gwener y Groglith eisoes ar droed. Hon fydd y ganfed gymanfa namyn un, a'r arweinydd gwadd fydd Prys Jones, Rhuthun.

Ysgol Feithrin Ffynnon Tâf
Buom yn sôn yn y golofn hon rai misoedd yn ôl am broblemau staffio Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth a'r effaith fyddai rhain yn ei gael ar y derbyniadau i'r Ysgol Feithrin. Mae'n bleser cael cyhoeddi fod y problemau wedi eu datrys, a fod y drefn bresennol am barhau. Golyga hyn y bydd plant yn cael eu derbyn i'r Ysgol Gynradd yn ystod eu pedwaredd blwyddyn ac felly fydd ddim rhaid i'r Ysgol Feithrin godi oedran derbyn y plant na chynnal mwy o sesiynau bob wythnos.


## Y CREIGIAU

Croeso i Mr Alun Davies o ardal Abertawe i Barc Castell y Mynach. Tanysgrifwr newydd i'r Tafod.

Dymunwn wellhad buan i Meira Ellis Owen, Queen Charlotte Drive ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg.

Mae lladron o gwmpas Creigiau o hyd. Byddwch ar eich gwyliadwriaeth.

Hoci
Bu Kate Davies, Beili Glas, yn chwarae hoci yn Amsterdam dros hanner tymor, fel aelod o dîm Ysgol Llanharri. Edrychwn ymlaen at dipyn o'r hanes yn y rhifyn nesa.



## LLANILLTUD FAERDRE

Gohebydd Lleol:
Linda Sidgwick 204959

Llongyfarchiadau i David Owen, Queens Drive ar ei benodiad fel Dirprwy Brifathro yn Ysgol Gynradd Coed-yr Esgob, Llantrisant. Cyn ei ddyrchafiad bu David yn athro yn Ysogol Gwaun Meisgyn.

Canu'n Iach
Blin gennym ffarwelio â Dewi a Heulwen Hughes a'r plant Deri a Cerian. Maen nhw'n gadael Crown Hill am Bentyrch ac er nad ydyn nhw'n mynd yn bell bydd colled ar eu hôl. Pob hapusrwydd yn eich cartref newydd.

Yr Ysgol Feithrin

Ffair Sborion
Bydd Ffair Sborion yn cael ei chynnal ar brynhawn Sadwrn, Mawrth 14 am ddau o'r gloch yn Neuadd Gymdeithasol Rhydyfelin. Gobeithir codi tipyn o arian at goffrau'r ysgol.

Rhodd
Penderfynodd pwyllgor yr Ysgol Feithrin roi £30 tuag at Apêl Tamsin Hazell o Donteg. Mawr yw ein gobaith y bydd hyn o help iddi.

Arwerthiant
Bydd arwerthiant dillad yn Neuadd Dowlais ar Fawrth 25. Croeso cynnes i bawb.

Pantomeim
Aeth llond bws o blant i weld y pantomeim ym Mhontypridd yn ystod gwyliau hanner tymor. Cafwyd cryn sbri ar y bws ac yn y perfformiad.

Dosbarthwyr Newydd
Diolch i Rhys a Diane Davies, 91 St Anne's Drive am fodloni dosbarthu'r "TAFOD" o fis Mawrth ymlaen.


MAE'N TALU I HYSBYSEBU

YN Y TAFOD

Gwerthwyd cwcer a printar o fewn wythnos ar ôl eu hysbysebu yn rhifyn diwethaf y TAFOD. Telerau arbennig am hysbysebion personol.